Eitem Agenda 2 **26 Mawrth 2010**

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR MAWRTH 2010

YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD

Cynaeafu a Marchnata - *Rhaglen 1: Y Gyfundrefn a choedwriaeth*

1. Cyfaint y pren a ddosbarthwyd hyd ddiwedd Chwefror yw 780km3. Mae hyn yn uwch na'r proffil cyllideb ac yn adlewyrchu cyflenwadau cyfyngedig o goetiroedd preifat a galw uchel am fiomas. Er gwaethaf y trafferthion a achoswyd gan y tywydd gwael ym mis Ionawr, mae ein rhagolwg ar hyn o bryd yn awgrymu alldro ar ddiwedd y flwyddyn o 840km3 o'i gymharu â chynllun gwerthu o 770km3. Bydd y cyfaint ychwanegol a gafwyd eleni'n gwrthbwyso'r cyfaint llai a gafwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf fel canlyniad i'r dirywiad economaidd. Mae disgwyl i ni ddiwallu ein lefel cynhyrchu a ragwelwyd dros bum mlynedd a'n targed teneuo o 180km3.

2. Cynhaliwyd ein pumed arwerthiant pren electronig ym mis Chwefror. Gwerthwyd bron y cyfan ac roedd galw rhagorol am y parseli llwyrdorri mwyaf a rhywfaint o gynnydd yn y prisiau am foncyffion a bariau. Mae'n dda gennyf allu dweud y byddwn yn marchnata'r cyfan o'r cynllun gwerthu a gyhoeddwyd, er gwaethaf amodau masnachu anodd a thywydd gwael.

Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd: Swyddogaeth i Goedwigoedd y DG gan yr Athro Read – Rhaglen 1: Y Gyfundrefn a choedwriaeth

3. Cynhaliwyd y cyntaf o'r ddau ddigwyddiad a drefnwyd gennym i hwyluso lledaenu'r adroddiad hwn yng Nghymru'r wythnos ddiwethaf, pan gyflwynodd yr Athro Read yr adroddiad i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, Aelodau o'r Cynulliad a swyddogion a budd-ddeiliaid allweddol yn Nhŷ Hywel. Dilynir hyn ym mis Mai pan fydd Forest Research yn cyflwyno'r casgliadau i grŵp ehangach o fudd-ddeiliaid o Gymru.

FUTUREforest – *Rhaglen 1: Y Gyfundrefn a choedwriaeth*

4. Mae prosiect FUTUREforest, sy'n mynd i'r afael â materion FUTUREforest a choedwigaeth ar draws Ewrop, wedi cynnal ei ail weithdy yn y cymal "Datblygu ar y Cyd" yn Ffrainc. Bu rhanbarthau ledled Ewrop sy'n bartneriaid yn trafod sut mae polisi'n dylanwadu ar arferion coedwigaeth a'r dulliau a ddefnyddir i wneud yn siŵr fod camau ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd yn cael eu cymryd.

Coetiroedd Gwell i Gymru – *Rhaglen 1: Y Gyfundrefn a choedwriaeth*

5. Mae'r galw am Goetiroedd Gwell i Gymru yn dal yn gryf. Hyd yma, mae 798 o achosion (cyfanswm o 29,871ha) wedi eu cymeradwyo, a maint cyfartalog y

cynlluniau yw 37ha. Cafodd cyfanswm o 303ha o goetir newydd ei greu ac mae 80% yn goetir brodorol. Mae'r tywydd gwael wedi cael effaith ar waith a gafodd ei gymeradwyo, ac mae disgwyl y bydd yr alldro'n llai na'r gyllideb. Yn ystod 2010/11 byddwn yn ceisio cael y 30 o Gynlluniau Coedwigaeth sydd ar ôl i mewn i Goetiroedd Gwell i Gymru fel bod modd cwblhau'r cynlluniau hyn. Byddwn yn canolbwyntio nawr ar wynebu'r her o greu darnau sylweddol o goetir newydd yn unol â chyhoeddiad y Gweinidog dros Faterion Gwledig ar 16 Mawrth 2010.

PLANT! - *Rhaglen 1: Y Gyfundrefn a choedwriaeth*

6. Mae prosiect Plant! yn mynd yn ei flaen a chyflwynwyd 67,392 o dystysgrifau hyd yma. Cynhaliwyd digwyddiad pen blwydd yn ne Cymru yng nghwmni'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Jane Davidson AC. Yn dilyn yr ymgynghori â'r gymuned yn Wrecsam, mae Plant! yn dal i weithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Cymuned Garw er mwyn hybu'r gwaith o ddylunio a sefydlu ardaloedd o goetir.

Hyrwyddwr Newid yn yr Hinsawdd – *Rhaglen 1 Y Gyfundrefn a choedwriaeth*

7. Ar hyn o bryd mae fy Nhîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu yn cefnogi un o Hyrwyddwyr Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan Nathan Sutcliffe (16), sy'n byw yn Nolgellau, ddiddordeb arbennig mewn coed ac mae'n anelu at blannu 100,000. Hyd yma, mae wedi plannu 4,000 ynghyd â lledaenu'r neges y gall coed liniaru ar effaith newid yn yr hinsawdd. Mae'n fwriad ganddo ysgrifennu at holl ysgolion Cymru er mwyn eu hannog i blannu coed ar dir yr ysgol. Drwy gydol ei amser fel Hyrwyddwr Newid yn yr Hinsawdd, bydd Nathan yn cadw dyddiadur a fydd i'w weld ar dudalennau gwe Coetiroedd ar gyfer Dysgu Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Rhaglen Ffermydd Gwynt yr Ystâd Goedwig Genedlaethol – *Rhaglen 3*: *Ynni Adnewyddadwy]*

8. Fel rhan o'r trefniad newydd ar gyfer y rhaglen a llywodraethu, er mwyn sicrhau cynnydd trwy'r cymalau cynllunio, adeiladu a chomisiynu, penodwyd Derek Stephen (Cyn-bennaeth Cyllid Comisiwn Coedwigaeth Cymru) yn Swyddog Gweithredol y Rhaglen. Ei dasg gyntaf oedd cryfhau Tîm y Rhaglen er mwyn gwneud yn siŵr fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n gallu bodloni ei rwymedigaethau cytundebol wrth i Ddeiliaid Opsiynau baratoi eu Ceisiadau Cynllunio a datrys materion yn ymwneud â chynllunio. Mae cynnydd y rhaglen yn cyflymu wrth i Ddeiliaid Opsiynau lunio'r cyflwyniadau cynhwysfawr sydd eu hangen ar y Comisiwn Cynllunio Seilwaith sydd newydd ei sefydlu.

COETIROEDD I BOBL

Partneriaeth y Cymoedd – *Rhaglen 4: Cyfranogiad a menter gyhoeddus*

9. Ar hyn o bryd rydym yn chwarae rhan lawn a gweithredol ym Mhartneriaeth y Cymoedd a'i amcan o adfywio cymoedd y De trwy wella'r amgylchedd a denu ymwelwyr. Mae fy staff yn aelodau o grŵp craidd y Bartneriaeth a phedwar o'i is-grwpiau. Rydym wedi datblygu gwell cysylltiadau a chyfathrebu rhwng pob un o'r cyrff sy'n bartneriaid er mwyn denu cefnogaeth i'n hamcanion.

Cynllun Datblygu a Gwella Coetiroedd Blaenau'r Cymoedd – *Rhaglen 4: Cyfranogiad a menter gyhoeddus*

10. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r cynllun coetir a methodoleg targedu gofodol. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl awdurdodau unedol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Rhanbarthau Amgylchedd Rhwydweithiol, Coed Cymru, BTCV a Groundwork. Mae'r fframwaith gofodol wedi nodi 30 o safleoedd coetir sy'n bodoli a darpar safleoedd a allai ddarparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae disgwyl cwblhau'r gwaith erbyn Ebrill 2010 er mwyn lansio'r digwyddiad yn yr haf. Bydd Grŵp Ymgynghorol Blaenau'r Cymoedd ynghyd â'r Comisiynydd Judith Webb yn ymweld â Newlands a'r Goedwig Genedlaethol cyn bo hir er mwyn darganfod sut y datblygwyd strategaethau coetiroedd rhanbarthol tebyg.

Sgwd yr Eira – *Rhaglen 5: Hamdden a mynediad*

11. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynglŷn â rheoli'r ardal o raeadrau yn Sgwd yr Eira. Cafwyd ymateb positif i goncordat arfaethedig rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru a grŵp cyswllt sy'n cynrychioli darparwyr gweithgareddau. Rydym eisoes wedi cytuno ar God Ymddygiad ar gyfer y canolfannau addysg a gweithgareddau awyr agored.

Canolfan Ragoriaeth Awyr Agored Eryri – *Rhaglen 5*: *Hamdden a mynediad*

12. Mae fy staff yn cydweithio er mwyn cael hyd i £1.4m i helaethu'r gwasanaethau hamdden ym Mharc Coedwig Coed y Brenin. Bydd y cais am arian Twf Amgylchedd 4 gan Croeso Cymru yn creu canolfan Ragoriaeth Awyr Agored yn rhan ddeheuol Eryri, gan wella a chysylltu darpariaeth hamdden y rhanbarth daearyddol. Ar lefel prosiect unigol, y nod yw gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol y cyfleusterau. Mae'r prosiect yn dibynnu ar arian cyfatebol o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y Gronfa Datgomisiynu Niwclear.

Canolfan Ymwelwyr Nant yr Arian - *Rhaglen 5*: *Hamdden a mynediad*

13. Mae caffi'r ganolfan ymwelwyr wedi cael ei reoli dan gytundeb tenantiaeth ers deng mlynedd, a daw'r cytundeb hwn i ben ym mis Mai. Rydym wedi penderfynu rhedeg y caffi ein hunain. Y rheswm am hyn yw gwneud yn siŵr y gallwn ail-dendro'r busnes a gwneud newidiadau i gynllun y safle a sut mae'n cael ei reoli. Bydd gennym well syniad o werth y busnes a bydd gennym amser i gynnal proses gaffael sy'n gwbl gydymffurfiol ac ymarferol. Cymhlethdod pellach i'r penderfyniad hwn yw bod datblygwyr fferm wynt Ardal Chwilio Strategol D wedi gwneud cais am fynedfa arall ar gyfer llwythi mawr heibio i'r ganolfan ymwelwyr.

Coed Trefol Blaenau'r Cymoedd – *Rhaglen 7: Coetiroedd a choed trefol*

14. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wrthi yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r manteision lluosol sy'n perthyn i goed trefol. Trefnodd fy staff gyfarfod o bartneriaid allweddol o'r holl awdurdodau lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Blaenau'r Cymoedd, er mwyn trafod y manteision a allai ddeillio o goed trefol a'r rhwystrau rhag eu defnyddio. Mae yna wir gyfle, wrth i ganol tref 13 o drefi'r ardal gael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf, i arloesi ynglŷn â sut rydym yn defnyddio a hyrwyddo coed trefol yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith da a'r syniadau a gafodd eu datblygu gan Grŵp Dylunio Coed a Gweithredu yn Llundain.

GWELLA ANSAWDD YR AMGYLCHEDD

Coetiroedd Gwell i Gymru – *Rhaglen 9*: *Adfer a rheoli coetiroedd brodorol a chynefinoedd agored*

15. Ers dechrau Coetiroedd Gwell i Gymru (BWW) gwariwyd cyfanswm o £1.7 miliwn o gymorth grant (ymron i 40% o'r holl wariant grant) ar goetiroedd brodorol a Phlanhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol ar ymron i 6,000ha. Mae grant BWW gwerth £43,000 yn cael ei ddefnyddio i adfer ymron i 60ha o goetir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar lannau'r Fenai yn y Gogledd.

Strategaeth Geirw ar gyfer Cymru - *Rhaglen 10*: *Bioamrywiaeth, treftadaeth a thirwedd sy'n berthynol i'r safle*

16. Mae fy Nhîm Polisi a Datblygu Rhaglen wedi ffurfio partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Fenter Geirw er mwyn datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ceirw ar gyfer Cymru. Bydd y strategaeth yn darparu'r ymagwedd gydlynol sydd ei hangen i gyflwyno'r weledigaeth fod y boblogaeth o geirw gwyllt o fudd i Gymru. Datblygir y Strategaeth gyda mewnbwn gan randdeiliaid ac mae disgwyl iddi gael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2010.

Cynllun Cadwraeth y Wiwer Goch ar gyfer Cymru – *Rhaglen 10*: *Bioamrywiaeth, treftadaeth a thirwedd sy'n berthynol i'r safle*

17. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn dal i gyfranogi yn narpariaeth Cynllun Cadwraeth y Wiwer Goch ar gyfer Cymru yn genedlaethol ac yn lleol. Rydym wedi comisiynu Forest Research i gwblhau asesiad tirwedd o'r brif ardal yn y Canolbarth erbyn Ebrill 2010 fel bod gennym arweiniad i dargedu'r adnoddau mwyaf manteisiol ar gyfer cadwraeth y wiwer goch.

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – *Rhaglen 10: Bioamrywiaeth, treftadaeth a thirwedd sy'n berthynol i'r safle*

18. Mae gwaith Grwpiau Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn mynd rhagddo gyda chynlluniau gweithredu ar gyfer arweiniad strategol a chymorth i waith ar gynefinoedd a rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cadeirio'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd sydd ag aelodau o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, amryw o Gyrff Anllywodraethol, cynrychiolwyr o ddiwydiant ac arbenigwyr ar rywogaethau.

CAMAU BUSNES

Camau Perfformiad a Busnes

19. Cyflwynir yr adroddiad chwarterol nesaf ym mis Ebrill. Ni fu unrhyw newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor Cenedlaethol.

E-recriwtio – *Cam Busnes 2: Amrywiaeth staff*

20. Erbyn hyn cafodd y cyfieithiadau Cymraeg eu lanlwytho a'u profi ac ar hyn o bryd maent yn cael eu mireinio. Fe ddylai'r system fod ar waith erbyn diwedd Mawrth.

Amrywiaeth: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – *Cam busnes 3: Adnabod a chyflawni anghenion hyfforddi staff*

21. Byddwn yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'u cwblhau. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy sicrhau fod y staff yn gwybod pryd y dylid cwblhau EqIA; gwneud yn siŵr fod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth i allu cynnal asesiad yn hyderus; a holi ar lefel y bwrdd a gafodd EqIA ei gwblhau pan ddaw cais i gymeradwyo polisi neu weithgaredd.

Hyfforddiant cyfryngol – *Cam busnes 3: Adnabod a chyflawni anghenion hyfforddi staff*

22. Erbyn hyn mae'r bwrdd rheoli ac uwch swyddogion eraill wedi derbyn yr hyfforddiant hwn. Bydd y lefel nesaf o hyfforddiant i reolwyr yn cael ei gwblhau erbyn Gorffennaf.

Strategaeth Sgiliau Dwyieithog – *Cam busnes 5: Cymhwysedd iaith Gymraeg*

23. Cwblhawyd dadansoddiad o lefel bresennol y siaradwyr Cymraeg yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd â'r lefel sgiliau a ragwelir yn yr hirdymor ar gyfer pob swydd.

Trefor Owen
Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Mawrth 2010